# Datblygiad plant

## Camau datblygiad plentyn Piaget

Ystyriwch gamau Piaget sydd i'w gweld isod a gwyliwch y fideo (Saesneg yn unig). Mae'r plentyn yn arddangos un o gamau Piaget.

- Yn eich barn chi, ar ba gam y mae'r plentyn sydd i'w weld yn y fideo?
- Sut fyddech chi'n helpu'r plentyn i symud i'r cam nesaf?
- Pa brofiadau dysgu a chefnogaeth oedolyn fyddai eu hangen?

### Camau Piaget

**Y Cyfnod Synhwyraidd-weithredol** – Geni hyd at 2 oed

Mae'r plentyn yn:
- adnabod y byd drwy symudiadau a synwyriadau
- dysgu am y byd drwy weithrediadau sylfaenol megis sugno, cyffwrdd, edrych a gwrando
- dysgu fod pethau'n dal i fodoli er na ellir eu gweld
- sylweddoli eu bod hwy'n fodau ar wahân i'r bobl a'r gwrthrychau o'u cwmpas
- sylweddoli y gall eu gweithrediadau hwy achosi i bethau ddigwydd yn y byd o'u cwmpas.

**Y Cyfnod Cynweithredol** – 2 i 7 oed

Mae'r plentyn yn:
- dechrau meddwl yn symbolaidd ac yn dysgu defnyddio geiriau a lluniau i gynrychioli gwrthrychau
- tueddu i arddangos ymddygiad myfïol ac yn cael anhawster i weld pethau o safbwynt eraill
- arddangos gwell sgiliau iaith a meddwl ond mae'r duedd i feddwl am bethau mewn termau diriaethol yn parhau.

**Y Cyfnod Gweithredu Diriaethol** – 7 i 11 oed

Mae'r plentyn yn:
- dechrau meddwl yn rhesymegol am ddigwyddiadau diriaethol
- dechrau deall y cysyniad o gadwraeth; er enghraifft, bod cyfaint hylif mewn cwpan fer, lydan yr un faint â'r hyn sydd mewn gwydryn cul, tal
- meddwl yn fwy rhesymegol a threfnus, ond yn parhau i fod yn hynod ddiriaethol
- dechrau defnyddio rhesymeg anwythol, neu resymu o wybodaeth benodol i egwyddor gyffredinol.

**Y Cyfnod Gweithredu Ffurfiol** – 12 oed a hŷn

Mae'r glasoed neu oedolyn ifanc yn:
- dechrau meddwl yn haniaethol ac yn rhesymu ynghylch problemau damcaniaethol
- dechrau meddwl mwy am faterion moesol, athronyddol, moesegol, cymdeithasol a gwleidyddol sy'n galw am resymu haniaethol a damcaniaethol
- dechrau defnyddio rhesymu diddwythol, neu resymu o egwyddor gyffredinol i wybodaeth benodol.